Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

# Cyfeiriadur o opsiynau cyllid i oroeswyr nad oes cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt (no recourse to public funds)



# Rhagymadrodd

Yn y cyfeiriadur hwn ceir manylion am opsiynau cyllido gan sefydliadau elusennol a chyrff dyfarnu grantiau er mwyn i wasanaethau arbenigol VAWDASV allu darparu cymorth i oroeswyr nad oes cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt. Mae hyn yn cynnwys cymorth ariannol i dalu rhent mewn lloches yn ogystal ag anghenion sylfaenol fel dillad, bwyd a theithio. Rhennir y cyfleoedd cyllid yn gronfeydd i unigolion a chronfeydd i sefydliadau.

Gellir ymgeisio i'r **cronfeydd i unigolion** gyda manylion yr unigolyn pan fydd mewn cysylltiad â'ch gwasanaeth. Mae rhai cronfeydd yn gofyn bod gweithiwr cymorth yn cyflwyno'r cais tra bo angen i'r unigolyn wneud y cais ei hun i eraill.

Mae'r **cyllid i sefydliadau**'n rhestr o gyrff dyfarnu grantiau sy'n derbyn ceisiadau gan wasanaethau arbenigol VAWDASV i dalu am rai o'r costau sy'n gysylltiedig â darparu cymorth lloches (gan gynnwys rhent) i oroeswyr nad oes cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt, ac unrhyw oroeswr arall nad yw'n gymwys am fudd-dal tai.

Ar ddiwedd y cyfeiriadur fe welwch adnoddau allweddol ar gyfer cefnogi menywod a theuluoedd nad oes cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt.

## 1. Cyllid i Unigolion

| Vicar's Relief Fund | |
|---|---|
| Diben a chwmpas | Cronfa a sefydlwyd gan Elusen St Martin-in-the-Fields yw'r Vicar's Relief Fund (VRF) (elusen gofrestredig: 1156305). Mae'r VRF yn helpu pobl sy'n ddigartref neu sy'n agored i niwed yn eu cartrefi drwy grantiau bach, ymateb buan i osgoi cael eu troi allan neu i gael llety. |
| Uchafswm/Isafswm y taliad | Gall gweithwyr llinell flaen ymgeisio ar ran eu cleientiaid am grant i osgoi cael eu troi allan (hyd at £350) neu i gael llety (hyd at £500). Mewn rhai achosion cyfyngedig gellir gofyn am fwy ond rhaid i'r gweithiwr llinell flaen ddangos pam fod gan y cleient amgylchiadau eithriadol. |
| Ailadrodd taliadau? | 1 grant y pen bob 12 mis |
| Sut a phryd i ymgeisio? | Cyflwynir ceisiadau drwy borth ar-lein https://smitf.flexigrant.com a hysbysir y canlyniad fel arfer o fewn 5 diwrnod. Telir grantiau fel ôl-daliad neu ymlaen llaw. |
| Dull talu? | Taliad BACS yn uniongyrchol i'r Gwasanaeth. |
| Meini Prawf Cymhwysedd | vrf-grant-making-policy-dec-2021.pdf (frontlinenetwork.org.uk) |
| Manylion Cyswllt | Vicar's Relief Fund \| St Martin in the Field (frontlinenetwork.org.uk) |

## Sefydliad Elusennol COSARAF – Cronfa Caledi

| | |
|---|---|
| Diben a chwmpas | Mae Sefydliad COSARAF yn darparu Grantiau Caledi i unigolion mewn angen ariannol gwirioneddol. Gellir ymgeisio am gyllid ar gyfer ôl-ddyledion Rhent ac ôl-ddyledion y dreth Gyngor lle ceir risg clir a gwirioneddol o ddigartrefedd, eitemau i'r cartref, costau byw sylfaenol a chyfrannu at gostau'n gysylltiedig â mewnfudo os yw ei statws mewnfudo'n achosi caledi yn uniongyrchol i'r ymgeisydd |
| Uchafswm/Isafswm y taliad | Mae grantiau o hyd at £2,000 ar gael i unigolion a theuluoedd cymwys. Mae'r rhan fwyaf o'r grantiau rhwng £500-£1,000. |
| Ailadrodd taliadau? | Dim ond 1 grant y pen bob 12 mis |
| Sut a phryd i ymgeisio? | Caiff ceisiadau eu hasesu bob chwe wythnos a gellir disgwyl ymatebion o fewn wyth wythnos i gyflwyno cais. |
| Dull talu? | Taliad BACS yn uniongyrchol i'r Gwasanaeth |
| Meini Prawf Cymhwysedd | I fod yn gymwys am grant neu rodd fach, rhaid bodloni'r meini prawf canlynol:<br>• Rydym ni'n blaenoriaethu'r bobl sy'n fwyaf eithriedig yn ariannol<br>• Rydym ni'n blaenoriaethu eitemau fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf<br>• Rhoddir mwy o bwysau i'r rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu |
| Manylion Cyswllt | Canllaw Ymgeisio am Grant y Gronfa Caledi - COSARAF |

## Sefydliad Cenedlaethol Zakat (NZF)

| | |
|---|---|
| Diben a chwmpas | Mae Cronfa Lleddfu Caledi NZF yn rhoi grantiau ar gyfer costau sylfaenol i Fwslimiaid sy'n agored i niwed yn y DU nad ydynt yn gallu talu costau byw sylfaenol. Gall y gronfa gynnig taliad i gynorthwyo gyda bwyd, dillad, biliau misol, costau cartrefu brys, teithio. |
| Uchafswm/Isafswm y taliad | Yr isafswm i berson sengl yw £470<br>Mae'r swm yn amrywio i deuluoedd â phlant gan ddibynnu ar nifer y plant. I fam â 4 plentyn, isafswm y taliad yw £1140. |
| Ailadrodd taliadau? | Dim ond 1 grant y pen/teulu bob 12 mis |
| Sut a phryd i ymgeisio? | Ymgeisio ar-lein, ar hyn o bryd mae penderfyniad yn cymryd 5 wythnos oherwydd galw uchel (mis Tachwedd 2021) ac mae'r amserlen hon yn amrywio yn ôl y galw. Targed NZF yw ymateb rhwng 10 diwrnod a 2 wythnos. |
| Dull talu? | Trosglwyddiad banc i'r unigolyn neu drosglwyddiad i Swyddfa'r Post y gellir ei ddefnyddio fel talebau stryd fawr. |
| Meini Prawf Cymhwysedd | Mwslimiaid sy'n byw yn y DU sy'n gymwys i dderbyn Zakat |
| Manylion Cyswllt | Cronfa Lleddfu Caledi - NZF |

## Partneriaeth Ymddiriedolaeth Smallwood

| | |
|---|---|
| Diben a chwmpas | Mae'n darparu grantiau bach a chymorth i fenywod ar incwm isel sy'n ceisio goresgyn anawsterau ariannol. |
| Uchafswm/Isafswm y taliad | Taliad untro o £530 ar gyfartaledd, caiff taliadau misol bach â therfyn amser eu hystyried hefyd yn achlysurol. |
| Ailadrodd taliadau? | Gellir ailymgeisio ar ôl cyfnod o 3 blynedd. |
| Sut a phryd i ymgeisio? | Grantiau i unigolion \| Ymddiriedolaeth Smallwood<br>Rhaid i unigolion gwblhau ffurflen holi ac yna bydd aelod o'r tîm grantiau'n cysylltu â'r ymgeisydd. Yn dilyn cyflwyno'r cais, y cyfnod penderfynu yw 4 wythnos, gyda'r taliad yn dilyn 2-3 wythnos ar ôl y dyddiad hwn. |
| Dull talu? | Taliad BACS yn uniongyrchol gyfrif yr unigolyn. |
| Meini Prawf Cymhwysedd | Menywod 18 a throsodd yn byw yn y DU. Menywod sydd ar incwm isel, sy'n derbyn yr holl fudd-daliadau cymwys ac sydd â llai na £2000 o gynilon a dyled blaenoriaeth gyfunol o lai na £3000. Rhaid i fenywod allu darparu tystiolaeth o'u hangen ariannol cyfredol. |
| Manylion Cyswllt | Grantiau i unigolion \| Ymddiriedolaeth Smallwood |

## Ymddiriedolaeth Partneriaeth Glasspool a Smallwood

| | |
|---|---|
| Diben a chwmpas | Mae grantiau i fenywod gan Ymddiriedolaeth Partneriaeth Glasspool a Smallwood ar gael rhwng 1 Tachwedd 2021 a 30 Mehefin 2022. Y costau a gefnogir: eitemau hanfodol i'r cartref gan gynnwys dillad/pethau babi YNGHYD Â chostau symud, costau nôl i'r gwaith, costau argyfwng, ôl-ddyledion rhent/treth gyngor a chostau cyfleustodau. |
| Uchafswm/Isafswm y taliad | Y taliad ar gyfartaledd yw £530 |
| Ailadrodd taliadau? | Mae'r gronfa ar agor rhwng 1 Tachwedd 2021 a 30 Mehefin 2022. Gellir neilltuo un grant y pen yn ystod y cyfnod hwn. |
| Sut a phryd i ymgeisio? | https://grantsplus.org.uk/ Gall gweithwyr cymorth ymgeisio ar ran yr unigolyn drwy gofrestru ar borth GrantsPlus. Caiff penderfyniadau eu cyfleu drwy borth GrantsPlus. Ceir penderfyniad fel arfer o fewn mis. |
| Dull talu? | Taliad BACS yn uniongyrchol i'r gwasanaeth |
| Meini Prawf Cymhwysedd | Caiff menyw ymgeisio am gyllid os yw'n bodloni'r meini prawf canlynol:<br>• Nid yw wedi derbyn Grant Smallwood<br>• Mae'n 18 oed neu drosodd<br>• Mae ganddi'r hawl i breswylio ac mae'n byw yn y DU (mae ei statws nad oes cronfeydd cyhoeddus ar gael iddi'n gysylltiedig â fisa sy'n golygu bod ganddi ganiatâd i aros neu ddod i mewn h.y. fisa priod, fisa myfyriwr, caniatâd i aros a roddwyd dan fywyd teuluol neu breifat).<br>• Mae'n derbyn yr holl fudd-daliadau cymwys (gan gynnwys mudo i Gredyd Cynhwysol) neu mae ganddi incwm sy'n is na throthwy'r Isafswm Incwm Safonol<br>• Mae ganddi lai na £4,000 o gynilon a llai na £10,000 o ddyled<br>Bydd hi hefyd yn gorfod profi un neu fwy o'r amgylchiadau canlynol:<br>• Incwm is oherwydd afreidrwydd<br>• Lleihad mewn oriau gwaith<br>• Incwm anwadal (contract dim oriau)<br>• Incwm budd-daliadau sy'n annigonol i fodloni anghenion dyddiol<br>• Cam-drin domestig<br>• Iechyd meddwl neu ffisegol gwael |
| Manylion Cyswllt | Ymddiriedolaeth Partneriaeth Smallwood - Glasspool |

## Fund for Human Need

| | |
|---|---|
| Diben a chwmpas | Mae'r Fund for Human need (FHN) yn elusen fach yn gysylltiedig â'r Methodistiaid a sefydlwyd yn 1960 i leddfu tlodi a newyn. Gwneir taliadau argyfwng (unwaith yn unig), i unigolion yn y DU waeth beth yw eu ffydd, tarddiad ethnig neu grŵp cymdeithasol. Rhoddir blaenoriaeth i'r rheini sy'n ddiymgeledd neu sydd heb unrhyw incwm na budd-daliadau, y rheini sy'n arbennig o agored i niwed a'r rheini lle byddai swm bach o arian yn gwneud gwahaniaeth mawr. |
| Uchafswm/Isafswm y taliad | £120 |
| Ailadrodd taliadau? | Ddim ar gael |
| Sut a phryd i ymgeisio? | Gellir cyflwyno cais ar-lein neu gellir ebostio ffurflen gais wedi'i lawrlwytho. Gwneir penderfyniadau a thaliadau o fewn mis. |
| Dull talu? | Siec yn uniongyrchol i'r sefydliad sy'n cefnogi. |
| Meini Prawf Cymhwysedd | Gall unrhyw un yn y DU sy'n ddiymgeledd ac yn anobeithio, beth bynnag eu ffydd, tarddiad ethnig neu grŵp cymdeithasol, gyflwyno cais. |
| Manylion Cyswllt | Fund for Human Need – Elusen Gofrestredig Rhif 208866 |

## Cronfa Ymateb Turn2Us

| | |
|---|---|
| Diben a chwmpas | Cronfa sy'n cynnig cymorth ariannol i unigolion a theuluoedd sydd wedi profi digwyddiad a newidiodd eu bywyd yn y deuddeg mis diwethaf ac sy'n gysylltiedig â phartner atgyfeirio cofrestredig. |
| Sut a phryd i ymgeisio? | Rhaid i bartner atgyfeirio cofrestredig gyfeirio ymgeiswyr. Yng Nghymru dyma'r partneriaid atgyfeirio cofrestredig:<br>• Shelter Cymru Cyngor Ffôn - Shelter Cymru<br>• Family Fund Cymorth Family Fund \| Family Fund<br>• Sefydliad Helen Bamber Sefydliad Helen Bamber \| Strength to Fly<br>• Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd Cysylltu â Ni - Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd (ccha.org.uk)<br>• Cymorth Cefnogaeth Llety Dros Dro Cyngor Casnewydd Cynllun Taflen TASA (newport.gov.uk) |
| Meini Prawf Cymhwysedd | Mae gan bob partner argyfeirio ei reolau cymhwysedd ei hun a phrosesau ar gyfer ymgeisio i'r Gronfa Ymateb ar ran y bobl maen nhw'n gweithio gyda nhw |

## Buttle UK – Grantiau Chances for Children

| | |
|---|---|
| Diben a chwmpas | Grantiau o hyd at £2,000 wedi'u teilwra'n unigol i blant a phobl ifanc sydd wedi profi argyfwng sydd wedi cael effaith sylweddol a hir yn ddiweddar ar eu lles emosiynol a'u hymgysylltu addysgol. "Mae'r plant a'r bobl ifanc wedi profi argyfwng sydd wedi cael effaith sylweddol a hir yn ddiweddar ar y tri pheth canlynol: eu lles cymdeithasol, eu lles emosiynol a'u hymgysylltu addysgol AC mae teulu neu'r person ifanc wedi cymryd camau'n ddiweddar i wella eu sefyllfa, gan ymgysylltu'n weithredol â chymorth a symud ymlaen ar ôl yr argyfwng." |
| Uchafswm/Isafswm y taliad | £2000 |
| Ailadrodd taliadau? | Dim gwybodaeth ar gael |
| Sut a phryd i ymgeisio? | Rhaid i weithwyr cymorth ymgeisio ar ran y plant maen nhw'n eu cefnogi. |
| Dull talu? | Dim gwybodaeth ar gael |
| Meini Prawf Cymhwysedd | Rhaid i'r ymgeiswyr:<br>• Gael cydsyniad i'r cais gan y rhiant / gofalwr / person ifanc<br>• Cwblhau'r cais gyda chyfraniad gan y rhiant / gwarcheidwad a'r plant/person ifanc<br>• Dangos asesiad clir o anghenion emosiynol a dysgu'r plant / pobl ifanc<br>• Dangos sut y bydd yr eitemau neu'r gweithgareddau y gwneir cais amdanynt yn ateb y gofynion hyn<br>• Dangos sut mae'r grant yn cyd-fynd â chymorth arall a ddarperir i'r plant/pobl ifanc |
| Manylion Cyswllt | Grantiau Chances for Children - Buttle UK |

## Cymorth Ariannol y Retail Trust

| | |
|---|---|
| Diben a chwmpas | Cymorth ariannol i unrhyw un sy'n gweithio yn y sector manwerthu (o fewn y 3 mis diwethaf) neu oedd yn arfer gweithio yn y sector manwerthu (dros gyfnod o dair blynedd).<br>Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn archfarchnad, siop gornel neu unrhyw agwedd arall ar fanwerthu gan gynnwys storfa, danfon, cynhyrchu, logisteg, cyflenwadau meddygol. |
| Uchafswm/Isafswm y taliad | Pennir pob achos yn unigol ac nid oes uchafswm nac isafswm. Byddai mis o rent i fenyw nad oes cronfeydd cyhoeddus ar gael iddi yn cael ei ystyried. |
| Ailadrodd taliadau? | Dau daliad o fewn 10 mlynedd, gydag o leiaf 2 flynedd rhwng y 2 daliad. |
| Sut a phryd i ymgeisio? | Os gall y goroeswr ddangos ei bod yn ddigartref h.y. llythyr gan y lloches, tystiolaeth o gefndir manwerthu drwy slipiau cyflog a datganiad banc. Os yw'r cais yn ymwneud â digartrefedd, caiff y cais ei flaenoriaethu a cheir ymateb cyn gynted â phosibl o fewn pythefnos - mis. |
| Dull talu? | Taliad BACS yn uniongyrchol i landlord/lloches |
| Meini Prawf Cymhwysedd | • Gweithio ar hyn o bryd mewn manwerthu (o leiaf y 3 mis diwethaf) neu dystiolaeth o weithio mewn manwerthu yn ystod y 2 flynedd flaenorol (gyda thystiolaeth o gyflogaeth ddi-dor mewn manwerthu am 3 blynedd )<br>• Manylion eich cyflogaeth gymwys, gan gynnwys enwau a dyddiadau'r gyflogaeth.<br>• Y rheswm am y cais ac ar gyfer beth mae'r cymorth ariannol h.y. llythyr gan y lloches yn cynnwys cost y rhent<br>• Datganiad banc swyddogol dyddiedig o fewn y 60 diwrnod diwethaf. |
| Manylion Cyswllt | Cymorth Ariannol \| Retail Trust |

## 2. Grantiau i sefydliadau

Mae’r cyrff cyllido canlynol wedi mynegi diddordeb mewn derbyn ceisiadau gan wasanaethau arbenigol VAWDASV i gynorthwyo menywod a theuluoedd nad oes cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt ac y mae VAWDASV wedi effeithio arnynt gan gynnwys llety argyfwng.

### Cymru gyfan

| | |
|---|---|
| Cyllidwr | Ymddiriedolaeth Elusennol Sir Jules Thorn – Rhaglen Grantiau Bach Ann Rylands |
| Maint y Grant | Hyd at £5,000 |
| Proses a chyfnod ymgeisio | Ymgeisio ar-lein drwy’r wefan. Nid oes dyddiadau cau penodol ar gyfer cyflwyno ceisiadau. Gellir gwneud apeliadau pryd bynnag fydd y system ymgeisio ar-lein ar agor, a chânt eu hystyried gan yr Ymddiriedolwyr cyn gynted â phosibl, gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau |
| Meini prawf allweddol | SD-GUIDELINES-January-2022.pdf (julesthorntrust.org.uk) |
| Cyswllt | Cysylltu - Ymddiriedolaeth Sir Jules Thorn |

| | |
|---|---|
| Cyllidwr | Ymddiriedolaeth Elusennol Mary Homfray |
| Maint y Grant | Rhwng £1000- £5000 |
| Proses a chyfnod ymgeisio | Mae’r ymddiriedolwyr yn cyfarfod yn flynyddol yn y gwanwyn, fel arfer ym mis Mawrth a rhoddir y dyfarniadau erbyn mis Mai/Mehefin. Ffurflen gais fer ar-lein heb fod dros 2 dudalen. Gall ymgeiswyr ailymgeisio’n flynyddol. |
| Meini prawf allweddol | Sefydliadau sy’n gweithredu yng Nghymru sy’n canolbwyntio ar ddigartrefedd. |
| Cyswllt | Hafan - TMHCT (maryhomfrayct.org) |

## De Ddwyrain Cymru

| | |
|---|---|
| Cyllidwr | Ymddiriedolaeth Gibbs |
| Maint y Grant | Maint y grant ar gyfartaledd £1500 - £2000 |
| Proses a chyfnod ymgeisio | Cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn a chaiff y canlyniad ei roi i ymgeiswyr o fewn 1 wythnos i'r cyfarfod. |
| Meini prawf allweddol | Yr ardal blaenoriaeth yw de ddwyrain Cymru |
| Cyswllt | Croeso i wefan Ymddiriedolaeth Gibbs: Ymddiriedolaeth Gibbs |

## Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot

| | |
|---|---|
| Cyllidwr | Sefydliad Austin Bailey |
| Maint y Grant | Tua £1000 ac maent yn hoffi meithrin perthynas gyda sefydliadau, gan ailgyllido'r un sefydliad yn aml. |
| Proses a chyfnod ymgeisio | Mae'r ymddiriedolwyr yn cyfarfod 3 gwaith y flwyddyn. Caiff dyddiadau'r cyfarfodydd eu gosod ar eu tudalen Facebook 6 wythnos ymlaen llaw ac argymhellir cyflwyno ceisiadau mor gynnar â phosibl. Caiff penderfyniadau eu cyfleu o fewn ychydig wythnosau i bob cyfarfod. |
| Meini prawf allweddol | Mae'r sefydliad yn hoffi cyllido prosiectau na chânt eu cyllido fel arfer – byddai costau llety i bobl nad oes cronfeydd cyhoeddus ar gael iddynt yn bodloni'r maen prawf hwn. |
| Cyswllt | Gwybodaeth Ymgeisio — Sefydliad Austin Bailey |

## 3. Adnoddau Defnyddiol

Cynllun Cymorth i Ddioddefwyr sy'n Fudwyr (Cynllun SMV) - Southall Black Sisters

Cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig | NRPF (nrpfnetwork.org.uk)

Cyfraith Mewnfudo – Hawliau Menywod

Gweler hefyd linellau cymorth, gwefannau, ac adnoddau defnyddiol ym Mhecyn Gwybodaeth Cymorth i Ferched Cymru ar Hawliau Goroeswyr VAWDASV sydd yn destun mewnfudo.

Cymorth i Ferched Cymru
Tŷ Pendragon, Caxton Place,
Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE

02920 541 551
info@welshwomensaid.org.uk

www.welshwomensaid.org.uk

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif 1140962 a yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, rhif 07483469.

Dilynwch ni:
@welshwomensaid

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First